

Hawdd ei Ddeall

Arolygiaeth Gofal Cymru

Ein cynllun ar gyfer ein gwaith dros y
pum mlynedd nesaf - 2020 i 2025



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan
Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei
ddeall o 'Gynllun Strategol 2020-2025'.

Medi 2020



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.



Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 15**.



Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: :

Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

E-bost: ciw@gov.wales

Ffôn: 0300 7900 126



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Cyflwyniad.....	4
Y gwasanaethau rydyn ni'n eu harchwilio.....	5
Ein prif werthoedd.....	7
Ein prif amcanion.....	8
1. Gwneud pethau'n well.....	9
2. Gwneud ein gwaith yn dda.....	10
3. Bod â medrau a gwybodaeth y byddwn ni'n eu defnyddio i wneud gwahaniaeth.....	12
Geiriau anodd.....	15



Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Cymru ydyn ni. Ein gwaith yw gwneud yn siŵr bod gwasanaethau gofal yng Nghymru yn dda ac yn ddiogel. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:



- Gadw **cofrestr** o bob darparwr gofal yng Nghymru. Mae hyn yn meddwl cadw rhestr. Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal fod ar y rhestr hon er mwyn medru rhoi gwasanaethau yng Nghymru.



- Gwasanaethau **archwilio**. Mae hyn yn meddwl ein bod ni'n edrych yn ofalus ar wasanaethau i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y rheolau ac yn rhoi gofal da.



- **Gwneud yn siŵr** bod gwasanaethau yn gweithio'n dda. Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gwella o hyd ac yn dilyn y rheolau a'r deddfau ar gyfer darparu gwasanaethau.



- **Gwranddo** ar bryderon sydd gan bobl ynglŷn â gwasanaethau gofal yng Nghymru. Cynnwys pobl yn ein gwaith a dweud wrth bobl beth rydyn ni'n ei ddysgu.



Dyma yw ein cynllun ar gyfer y gwaith y byddwn ni'n canolbwyntio arno dros y pum mlynedd nesaf.

Y gwasanaethau rydyn ni'n eu harchwilio



Rydyn ni'n archwilio:

Gwasanaethau i oedolion. Mae'r rhain yn wasanaethau fel:



- cartrefi gofal i oedolion
- gofal sy'n cael ei roi i bobl yn eu cartrefi eu hunain
- canolfannau arbennig ble gall teuluoedd fyw pan fyddan nhw'n cael cefnogaeth ychwanegol.

Gwasanaethau i blant. Mae'r rhain yn wasanaethau fel:



- cartrefi gofal i blant
- gwasanaethau **gofal maeth** a **mabwysiadu**



Gofal maeth yw pan fydd yn rhaid i blentyn adael ei deulu a byw gyda theulu arall.

Mae **mabwysiadu** yn ffordd o ddod o hyd i deulu newydd ar gyfer plant sydd ddim yn gallu cael eu magu gan y rhieni oedd ganddyn nhw pan gawson nhw eu geni.



Gofal plant. Mae'r rhain yn wasanaethau fel:

- **gwarchodwyr plant** a gofal dydd (meithrinfeydd)"

Mae **gwarchodwyr plant** yn bobl sy'n cael eu talu i ofalu am blant yn eu cartrefi eu hunain.



Gwasanaethau awdurdodau lleol, fel:

- gwasanaethau cymdeithasol
- gwasanaethau **gofal maeth** a mabwysiadu.



Ysgolion preswyl ac ysgolion arbennig preswyl

Mae **ysgolion preswyl** yn ysgolion ble mae plant yn byw. Mae **ysgolion arbennig preswyl** yn gofalu am blant sydd ag anghenion ychwanegol. Mae plant yn byw yn yr ysgolion hyn ac yn cael cefnogaeth arbenigol ac addysg.



Colegau **addysg bellach** ar gyfer pobl dan 18 mlwydd oed.

Mae **addysg bellach** yn ddysgu sydd ar lefel uwch nag ysgol uwchradd a lefel is na phrifysgol.

Ein prif werthoedd



Mae **gwerthoedd** yn bethau rydyn ni'n meddwl sy'n bwysig iawn. Ac maen nhw'n ein helpu i wybod sut i ymddwyn a gweithio.



Mae ein prif **werthoedd** yn ein helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn ganolbwynt i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae'n bwysig i ni ein bod ni:



- yn ofalgar



- yn deg

- yn onest a dibynadwy



- â medrau a gwybodaeth sydd eu hangen arnon ni



- yn gwrando ar bobl ac yn eu trin yn dda.

Ein prif amcanion

2020

2025

Mae gennym ni dri phrif amcan y mae arnon ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw dros y pum mlynedd nesaf. Ein tri amcan yw:



1. Gwneud pethau'n well



2. Gwneud ein gwaith yn dda



3. Bod â medrau a gwybodaeth rydyn ni'n eu defnyddio i wneud gwahaniaeth



Rydyn ni'n dal ati i wirio'r amcanion hyn bob blwyddyn. Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr mai'r rhain sy'n dal i fod y pethau mwyaf pwysig y dylen ni ganolbwyntio arnyn nhw.



Mae'r rhan hon o'n cynllun yn dweud beth y byddwn ni'n ei wneud i gyflawni pob amcan.

1. Gwneud pethau'n well



Mae arnon ni eisiau:

- Gwranddo ar bobl.
- Defnyddio'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu i wneud pethau'n well.
- Gweithio gyda phobl eraill i wneud i newid ddigwydd.




Fe fyddwn ni'n:



- Ei gwneud hi'n glir beth y byddwn ni'n ei wneud er mwyn gwneud pethau'n well
- Archwilio gwasanaethau drwy'r amser a dweud wrth bobl beth rydyn ni'n ei ddysgu. Ysgrifennu adroddiadau a rhoi **graddfa** i wasanaethau.



Mae rhoi **graddfa** yn meddwl rhoi sgôr neu lefel i rywbeth.



- Dilyn ein **Cynllun Ymgysylltu** i wneud yn siŵr ein bod ni'n cynnwys pobl yn ein gwaith. Ac i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod pa bethau rydyn ni wedi dod i wybod am y gwasanaethau.



- Edrych a yw deddfau a rheolau yn helpu i wneud pethau'n well. Gwneud yn siŵr bod popeth rydyn ni'n wneud yn ein helpu i wneud gwasanaethau yn well i bobl.

2. Gwneud ein gwaith yn dda

Mae arnon ni eisiau:



- Helpu pobl i wneud dewisiadau da iddyn nhw eu hunain trwy roi gwybodaeth dda iddyn nhw.



- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n rhedeg ein sefydliad yn dda. A dilyn ein rheolau ar gyfer gweithio i safon uchel.



- Dal ati i ddefnyddio'r pethau y mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni i wella'r ffordd rydyn ni'n gweithio.



Fe fyddwn ni'n:

- Gwneud yn siŵr bod ein hadroddiadau'n glir ac yn hawdd eu deall.



- Defnyddio ein gwefan i'w gwneud hi'n haws i ddarparwyr weithio gyda ni.



- Edrych ar ein gwefan i wneud yn siŵr bod pawb yn medru dod o hyd i'r wybodaeth sydd arnyn nhw ei hangen.



- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n delio â phryderon pobl ynglŷn â gwasanaethau yn y ffordd orau.



- Ei gwneud hi'n haws i bobl gysylltu â ni.



- Gadael i bawb wybod pa mor dda rydyn ni'n gweithio. A'r pethau sydd arnon ni angen eu gwella.



- Rhoi ein cynllun ar waith ar gyfer gwirio ein gwaith.

3. Bod â medrau a gwybodaeth y byddwn ni'n eu defnyddio i wneud gwahaniaeth

Mae arnon ni eisiau:



- Dal ati i ddysgu a gwella er mwyn gwneud ein gwaith yn dda.



- Gwrando a dysgu gan ein gilydd.



- Cefnogi ein staff i fod y gorau y gallan nhw.

Fe fyddwn ni'n:



- Gwneud yn siŵr bod ein holl staff yn gallu cymryd rhan a'n helpu i fod yn llwyddiannus.



- Gwneud yn siŵr bod ein staff yn gallu dilyn y rheolau ar gyfer cadw pobl yn ddiogel yng Nghymru.



- Gweithio gydag **undebau llafur** i gefnogi ein staff.

Mae **undebau llafur** yn grwpiau o weithwyr sy'n dod at ei gilydd i sefyll dros eu hawliau fel un grŵp mawr.



- Gwneud yn siŵr bod ein staff yn gweithio'n well gyda'i gilydd ac yn gallu rhannu eu gwybodaeth a'u medrau.



- Gwneud yn siŵr nad yw ein staff yn cael gormod o waith. A'i gwneud yn glir beth y mae staff ein swyddfa yn ei wneud.



- Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cael y cyfle i ddal ati i ddysgu a gwella.

Cymraeg

- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n defnyddio'r Gymraeg ym mhopeth rydyn ni'n wneud.



- Meddwl am **gydraddoldeb**, **amrywioldeb** a **chynhwysiant** i wneud **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn lle arbennig o dda i weithio ynddo.



Mae **cydraddoldeb** yn meddwl bod gan bawb yr un hawliau a'u bod nhw'n medru cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Mae **amrywioldeb** yn meddwl nad yw pawb yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn credu gwahanol bethau ac yn byw mewn gwahanol ffyrdd.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan.

Geiriau anodd

Addysg bellach

Mae addysg bellach yn ddysgu sydd ar lefel uwch nag ysgol uwchradd a lefel is na phrifysgol.

Amrywioldeb

Mae amrywioldeb yn meddwl nad yw pawb yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn credu gwahanol bethau ac yn byw mewn gwahanol ffyrdd.

Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl bod gan bawb yr un hawliau a'u bod nhw'n medru cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn meddwl y gall bawb gymryd rhan.

Gofal maeth

Gofal maeth yw pan fydd yn rhaid i blentyn adael ei deulu a byw gyda theulu arall.

Graddfa

Mae rhoi graddfa yn meddwl rhoi sgôr neu lefel i rywbeth.

Gwarchodwyr plant

Mae gwarchodwyr plant yn bobl sy'n cael eu talu i ofalu am blant yn eu cartrefi eu hunain

Gwerthoedd

Mae gwerthoedd yn bethau rydyn ni'n meddwl sy'n bwysig iawn. Ac maen nhw'n ein helpu i wybod sut i ymddwyn a gweithio.

Mabwysiadu

Mae mabwysiadu yn ffordd o ddod o hyd i deulu newydd ar gyfer plant sydd ddim yn gallu cael eu magu gan y rhieni oedd ganddyn nhw pan gawson nhw eu geni.

Undeb Llafur

Mae undeb llafur yn grŵp o weithwyr sy'n dod at ei gilydd i sefyll dros eu hawliau fel un grŵp mawr.

Ysgolion arbennig preswyl

Mae ysgolion arbennig preswyl yn gofalu am blant sydd ag anghenion ychwanegol. Mae plant yn byw yn yr ysgolion hyn ac yn cael cefnogaeth arbenigol ac addysg.

Ysgolion preswyl

Mae ysgolion preswyl yn ysgolion ble mae plant yn byw.